EDRYCH AR RAI IFANC O SAFBWYNT JEHOFAH

Nodyn i'r siaradwr:
Ceisiwch yn garedig helpu oedolion i weld rhai ifanc fel y gwna Jehofah ac i ymwneud â nhw felly. Anogwch yr ieuenctid yn gynnes i werthfawrogi cariad Jehofah atyn' nhw ac iddyn' nhw ymateb iddo drwy ganlyn nodau theocrataidd

MAE JEHOFAH YN DANGOS CONSÝRN CARIADUS AT RAI IFANC (8 mun.)

'Dyw gwir Gristnogion ddim yn anwybodus ynglŷn â sut mae Jehofah yn ystyried rhai ifanc

Mae consýrn dwfn ganddo dros les rhai ifanc (Salm 94:6; Eseia 1:23)

Mae Gair Duw yn darparu cyngor cariadus ac angenrheidiol i rai ifanc a rhieni gan restru'u dyletswyddau a'u cyfrifoldeb priodol; mae'n medru gwneud y syml yn ddoeth (Salm 19:7)

Mae cannoedd o gyfeiriadau yn y Beibl at fabanod, plant, bechgyn, merched, a rhai ifanc

O'r cyfeiriadau hyn 'rydym yn dysgu fod Jehofah yn caru plant (Salm 127:3-5)

Mae e wedi trefnu i ofalu amdanyn' nhw, eu haddysgu, a'u hamddiffyn nhw; mae lle ganddo iddyn' nhw yn ei drefniant dwyfol

Jehofah sefydlodd y teulu, gan ddarparu ar gyfer amddiffyn, bwydo, a datblygiad y ddynoliaeth o ffrwythloni ymlaen (Eff 3:14, 15)

Hyfforddiant a gofal gan rieni cariadus, duwiol (Eff 6:4)

Addysg drwy drefn y teulu a'r gynulleidfa (Deut 6:6-9; 31:12; *it*-1 435)

Deddfau i amddiffyn plant rhag eu camdrin (Ex 22:22-24)

MAE CRISTNOGION YN EFELYCHU GOLYGWEDD DUW AT RAI IFANC (10 mun.)

Dangosodd Iesu wir ddiddordeb yn y rhai ifanc (Mth 19:14)

Mae rhieni duwiol, tadau'n arbennig, i hyfforddi'u plant yn ffyrdd Jehofah

Fe ddylen' nhw osgoi bod yn galed ar eu plant a'u cythruddo nhw (Eff 6:4; Col 3:21)

Fe ddylai egwyddorion y Beibl arwain rhieni wrth weinyddu disgyblaeth i'w plant (Ystyriwch bwyntiau allweddol o *g*92 9/8 26-7)

'Dyw Cristnogion aeddfed ddim yn edrych i lawr ar rai ifanc; yn hytrach mae'r gynulleidfa yn ystyried rhai ifanc ffyddlon yn esiamplau gwerth eu hefelychu (1Tim 4:12)

Dylid trin pob Cristion, gan gynnwys yr ifanc, â pharch ac urddas

Mae Jehofah yn gweld gwerth eu haddoliad (Salm 110:3)

RHAI IFANC A DDERBYNIODD GYMERADWYAETH JEHOFAH (9 mun.)

Mae potensial rhai ifanc yn wych, ond i gyflawni hyn mae angen iddyn' nhw dyfu, dysgu, a chael eu hyfforddi (Salm 71:17)

Mae enghreifftiau calonogol o rai ifanc ffyddlon yng nghyfnod y Beibl [Pwysleisiwch sut y bu i'r rhai ifanc canlynol wasanaethu Jehofah o'u hieuenctid ymlaen, a nodwch y nodweddion a'u gwnaeth nhw'n annwyl yng ngolwg Duw]

Joseff: Cafodd freuddwydion proffwydol gan Dduw ac yntau'n dal yn ei arddegau (Gen 37:2, 5)

Carodd gyfiawnder ac ymwrthod ag anfoesoldeb (Gen 39:7-9)

Merch Jefftha: Ffyddlon ac ufudd, yn fodlon cefnu ar fywyd normal gwraig yn Israel (*it*-2 27-8)

Dafydd: "disgynnodd ysbryd" Jehofah arno ac yntau'n dal yn "llanc" (1Sam 16:11-13; 17:33)

Joseia: Brenin Jwda yn wyth oed; fe barchai Air Duw a hyrwyddo gwir addoliad o'i galon (*it*-2 117-18)

Daniel: Ei gymryd i Fabilon yn ei arddegau mae'n debyg, fe arhosodd yn gadarn, yn deyrngar, yn ddigyfaddawd (Dan 1:8; *it*-1 576)

CYNGOR EIN TAD NEFOL, SYDD Â GOFAL DROS YR IFANC (14 mun.)

Ac yntau'n Dad cariadus, mae Jehofah yn apelio arnom ac mae consýrn dwfn ganddo am ein lles (Diar 4:20-27)

Mae e'n llwyr ymwybodol o holl ogwydd drwg bwriadau'r galon y mae'n rhaid i bawb ohonom frwydro ag e o'n hieuenctid ymlaen (Gen 8:21)

Mae Duw yn deall rhai ifanc ac mae'n gwybod y cyfan am y pwysau maen' nhw'n ei wynebu gan oedolion, ieuenctid hŷn, a chyfoedion

Mae e'n darparu cyngor cariadus ac esiamplau buddiol i'w dilyn

Er mai bachgen bach ydoedd, datblygodd Samuel berthynas bersonol â Duw ac ni chaniataodd i ymddygiad amharchus ac anfoesol meibion Eli ddylanwadu arno (1Sam 2:11-26)

Byddwch yn barod i ffoi "oddi wrth nwydau dyn ifanc" (2Tim 2:22)

Ymhlith y rhain mae tueddiadau rhywiol anfoesol a'r canlyn pleserau diymatal, obsesiynol sy' mor gyffredin heddiw

Penderfynwch yn eich calon i beidio â'ch llygru eich hun ag unrhyw ffurf ar aflendid (Dan 1:8)

Hanfodol gwerthfawrogi ein bod ni oll, gan gynnwys rhai ifanc, yn atebol i Dduw (Preg 11:9; Rhuf 14:12)

Mae'n cynnwys ufudd-dod a pharch sy'n ddyledus i rieni (Eff 6:1-3)

Rhaid i rai ifanc a gafodd eu magu yn y byd ond sydd 'nawr yn y gwirionedd barhau i ymwrthod â dychwelyd at ymddygiad annuwiol, cyffuriau, anfoesoldeb y gorffennol

Peidiwch â chael eich camarwain gan ddeniadau'r byd na'i ddull meddwl; *dros dro* maen' nhw ac maen' nhw'n *beryglus* (1In 2:15-17)

Ceisiwch fod yn gytbwys ym mhobeth a wnewch, gan gynnwys adloniant (*w*92 8/15 16)

Datblygwch ddiddordebau iachus a hobiau llesol; osgowch adloniant sy'n hyrwyddo ysbryd gwrthryfelgar ac arferion aflan (Salm 101:3; *w*92 10/15 16)

Gwnewch eich cynnydd yn amlwg (1Tim 4:15)

Dilynwch nodau theocrataidd; defnyddiwch ddarpariaethau a fwriadwyd ar gyfer rhai ifanc, fel y llyfr *Questions Young People Ask—Answers That Work*

Gwnewch gynnydd mewn meysydd fel gwybod y Beibl yn fanwl gywir, nodweddion Cristnogol, a thyfiant ysbrydol, yn ogystal â'r gallu i annerch, darllen, a dysgu

Os nad ydych eto wedi eich bedyddio, byddwch yn benderfynol o fod yn ddigonol ar gyfer bedydd ac i gael rhan lawn yn y weinidogaeth

MAE JEHOFAH YN ADDO DYFODOL HAPUS A DIOGEL I RAI IFANC FFYDDLON (4 mun.)

O safbwynt Jehofah mae i rai ifanc ran allweddol yn ei fwriad

Fodd bynnag, daw hyn â chyfrifoldeb mawr o flaen Jehofah (Preg 12:1)

Dangoswch drwy eich gweithredoedd eich bod chi'n gwerthfawrogi ei gyngor cariadus a'i rybuddion tadol

Gwnewch yr hyn 'rydych yn ei wneud dros Dduw yn dda; rhowch eich gorau iddo! (Cymharer Diarhebion 22:29 gyda Malachi 1:6-9)

Byddwch o ddifri' ynglŷn â'r gwirionedd, a chydnabod mai eich perthynas â Jehofah ydi'ch eiddo mwyaf gwerthfawr chi

Mae e'n eich gwahodd chi i fwynhau dyfodol hapus, diogel drwy ei wasanaethu e 'nawr (Jer 29:11-14a)

Gyda chefnogaeth, parch, a hyfforddiant cariadus rhai hŷn yn y gynulleidfa, gall rhai ifanc gyfrannu'n arwyddocaol at gyflawni ewyllys Duw (Darllen Salm 148:12, 13)

(Glynwch yn glós wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim rhaid darllen pob testun a grybwyllir na gwneud sylwadau arnynt)